

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Llun, 17 Chwefror 2025 0300 200 6565  
Amser: 14.00 [Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

---

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(Tudalennau 1 – 18)
- 2 Deisebau newydd**
  - 2.1 P-06-1488 Sefydlu ‘Cymdeithas Gofal’ i Fynd i’r Afael â’r Argyfwng COVID  
Hir yng Nghymru  
(Tudalennau 19 – 30)
- 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**
  - 3.1 P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod  
(Tudalennau 31 – 37)
  - 3.2 P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith  
(Tudalennau 38 – 46)
  - 3.3 P-06-1405 Mae eisiau ac mae angen uned lechyd Meddwl â gwelyau i ddynton arnom ni yng Ngogledd Cymru  
(Tudalennau 47 – 63)
- 4 Papurau i’w nodi**
  - 4.1 P-06-1449 Dylid dynodi Dyffryn Tywi yn Ardal o Harddwch Naturiol  
Eithriadol  
(Tudalennau 64 – 65)



- 4.2 P-06-1467 Cyfarwyddo GIG Cymru i ychwanegu Adenomyosis at y rhestr A i  
Y ar ei wefan 111  
(Tudalen 66)
- 4.3 P-06-1482 Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag  
esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)  
(Tudalennau 67 – 84)
- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o weddill y cyfarfod**
- 6 Trafodaeth Cynllunio Strategol**  
(14.30 – 15.00) (Tudalennau 85 – 97)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Chwefror 2025  
Petitions Committee | 17 February 2025

Cyfeirnod: SR2510372-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1488

Teitl y ddeiseb: Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Mae Cymru'n mynd i'r afael â gwaethygu afiechydon hirdymor oherwydd COVID Hir ymhlith plant a phobl sy'n gweithio a arferai fod yn iach. Yng Nghymru, mae mwy na 12,000 wedi marw gyda COVID. Mae cymaint â 300,000 yn brwydro yn erbyn COVID Hir. Mae teuluoedd yn colli darparwyr incwm. Mae sbytai o dan bwysau eithafol Mae absenoldebau mewn ysgolion wedi mwy na dyblu. Erbyn 2030, gallai 1 o bob 3 fod â COVID Hir

Rydym yn galw am 'Gymdeithas Gofal' i ddiogelu ein hiechyd a'n bywoliaeth.

Gwybodaeth ychwanegol - Cydrannau'r 'Gymdeithas Gofal'

- Iechyd:** Cyllid ar gyfer clinigau ac ymchwil COVID Hir
- Cyfranogiad Economaidd:** Addasiadau yn y gweithle fel oriau hyblyg, gweithio o bell, ac amddiffyniadau rhag gwahaniaethu. Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, i ymchwilio i sut y gallai cymorth ariannol rymuso pobl i gyfrannu at y gymdeithas, waeth beth fo'u statws iechyd.
- Seilwaith:** Gwella ansawdd aer mewn adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion ac ysbytai. Buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd i sbarduno twf



---

economaidd, gan gynnwys ailhyfforddi'r rhai sy'n trosglwyddo o'u rolau cyfredol oherwydd COVID Hir.

## Cefndir

### Y Gymdeithas Gofal

Mae'r term "**Cymdeithas Gofal**" wedi'i drafod mewn amryw gyd-destunau, yn enwedig mewn polisi cymdeithasol. Mae'n fodel cymdeithasol ac economaidd sy'n blaenoriaethu gofal fel gwerth sylfaenol mewn cymdeithas. Cyfeiria'r deisebydd at y term i bwysleisio pwysigrwydd polisiau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol a waethygir gan bandemig Covid-19. Mae ei **gydrannau allweddol** yn cynnwys gofal iechyd ac ymchwil, grymuso economaidd, a buddsoddi mewn seilwaith.

Mae grwpiau eiriolaeth, gan gynnwys **COVID hir Cymru** - cangen Cymru o'r grŵp Long COVID Support, o dan arweiniad cleifion, **yn cefnogi'r ddeiseb**, gan alw am ymateb cynhwysfawr i'r argyfwng yng Nghymru.

### COVID Hir

Cafodd dros 15,000 o farwolaethau yn ymwneud â Covid-19 **eu cofrestru yng Nghymru** hyd at fis Ionawr 2025 (mae hyn yn cynnwys marwolaethau lle crybwyllwyd Covid-19 ar y dystysgrif marwolaeth, boed fel achos sylfaenol ai peidio).

Ar 5 Mawrth 2023, amcangyfrifwyd bod 108,000 o bobl yng Nghymru yn profi **effeithiau hirdymor** heintiau Covid, a elwir yn Covid Hir (mae'r ffigur hwn yn hunan-gofnodedig). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) **wedi amcangyfrif** bod 2.9% o boblogaeth y DU yn profi Covid Hir hunan-gofnodedig.

Mae'r term Covid Hir yn disgrifio symptomau sy'n parhau, neu sy'n dechrau yn sgil haint Covid. Mae Covid yn glefyd fasgwlaidd difrifol sy'n gallu heintio pob prif organ a system, felly mae **dros 200 o symptomau posibl**. Mae'r rhain yn cynnwys materion niwrolegol fel problemau gyda'r cof a chanolbwyntio, anhwylderau hunanimiwn, blinder eithafol, a phroblemau cardiofasgwlaidd.

---

## Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Lansiodd Llywodraeth Cymru y **rhaglen Adferiad (Recovery)** i gefnogi pobl sy'n dioddef effeithiau tymor hir Covid-19, gan gynnwys Covid Hir, ym mis Mehefin 2021. Mae'r rhaglen Adferiad yn cynnwys llwybrau cleifion i gael diagnosis o Covid Hir ac asesu difrifoldeb y symptomau. Mae'n cynnig cynlluniau triniaeth a gwasanaethau adsefydlu er mwyn helpu i reoli symptomau fel diffyg anadl, blinder a niwl yr ymennydd, ac mae'n cynnig mynediad at dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys meddygon, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a seicolegwyr. Mae'r rhaglen yn darparu arweiniad ac adnoddau i helpu unigolion i reoli eu symptomau gartref.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru **£5 miliwn** i gefnogi'r rhaglen yn 2021. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd **gynnydd mewn cyllid blynyddol** ar gyfer gwasanaethau Adferiad, gydag £8 miliwn bellach yn cael ei ddyrannu'n barhaus i fyrddau iechyd. Bwriad y cynnydd yn y cyllid oedd galluogi byrddau iechyd i ehangu mynediad at wasanaethau a ariennir gan Adferiad i bobl â salwch ar ôl haint aciwt arall, gan gynnwys pobl â chyflyrau fel ME/CFS a ffibromyalgia, yn ogystal â'r rhai sydd â symptomau corfforol parhaus, ond dim diagnosis wedi'i gadarnhau.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor hwn yn nodi sut y mae wedi blaenoriaethu cefnogaeth i gleifion Covid Hir ers dechrau'r pandemig:

### Gofal iechyd ac ymchwil

- Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio bod ei dull o gefnogi pobl sy'n byw gyda Covid Hir yn cyd-fynd â chanllawiau NICE ac mae'n amlygu bod £6.93 miliwn wedi'i ddyrannu i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i lywio dulliau polisi a thriniaeth. Mae'n amlinellu ei ddull o ddarparu gwasanaethau adsefydlu lleol, yn y gymuned, gyda mynediad at ofal arbenigol pan fo angen.

### Grymuso economaidd

- Dywed Llywodraeth Cymru bod yn rhaid i gyflogwyr ddarparu addasiadau rhesymol i weithwyr â Covid Hir, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn cyfeirio at ganllawiau GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, sy'n cynghori cymorth hyblyg i staff y GIG sy'n dychwelyd i'r gwaith, gan gynnwys tâl salwch uwch. Mae ymateb y Llywodraeth yn nodi

---

bod budd-daliadau anabled ar gyfer Covid Hir yn dod o dan awdurdodaeth Llywodraeth y DU.

### Gwelliannau seilwaith ac ansawdd aer

- Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at ganllawiau awyru newydd i sicrhau rheolaeth effeithiol ar yr haint mewn adeiladau ysbytai, gan ddatgan mai byrddau iechyd sy'n gyfrifol am oruchwyllo awyru mewn ysbytai. Mae'n ychwanegu mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am awyru mewn ysgolion.

## Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Bu sawl dadl am Covid Hir yn y Senedd, a'r fwyaf diweddar oedd y dadl fer, 'Covid hir: Datblygu dull gweithredu Cymru gyfan i fynd i'r afael ag argyfwng iechyd sy'n tyfu.' ar 11 Rhagfyr 2024.

Ar 22 Hydref 2024, cyflwynodd Adam Price AS gwestiwn ysgrifenedig [WQ94701]:

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sicrhau bod anghenion y cleifion mwyaf difrifol wael ag ME, gan gynnwys y rhai sydd â COVID hir sy'n bodloni meini prawf clinigol NICE difrifol/difrifol lawn ME yn cael eu diwallu'n briodol?

Cafodd ei ateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 31/10/2024

Mae'r rhaglen Adferiad, a sefydlwyd i ddechrau i gefnogi pobl â Covid hir, yn gwella'r gefnogaeth i bobl ag ME/CFS. Mae £8m o gyllid rheolaidd wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd ers mis Mawrth 2023 er mwyn ehangu mynediad at wasanaethau a ariennir gan Adferiad i bobl â chyflyrau hirdymor eraill y mae eu hanghenion adsefydlu ac adfer yn debyg i bobl â Covid Hir, gan gynnwys ME/CFS, ac i barhau i ddatblygu ac ehangu gwasanaethau adsefydlu amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gyda chymorth llwybrau atgyfeirio i ofal eilaidd i'r rhai sydd ei angen.

Mae pob un o'r byrddau iechyd yn datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ofal rhagweithiol a thargedu adferiad ac adsefydlu, gan hyrwyddo hunanreolaeth - a hunanreolaeth â chymorth - drwy ddull tîm amlddisgyblaethol. Mae cydgynhyrchu yn ffactor hanfodol wrth

---

ddatblygu gwasanaethau, ac rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd, yn ystod y broses hon, ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd.

Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i gynnwys llwybrau ar gyfer ME/CFS a Covid hir yn y rhaglen llwybrau iechyd cymunedol sy'n cael ei goruchwylio gan yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd, Llwbrau Iechyd a Gofal. Mae llwybrau iechyd cymunedol yn cynnig gwybodaeth a gytunir yn lleol i glinigwyr i wneud y penderfyniadau cywir ynghyd â chleifion, ar adeg gofal. Mae'r llwybrau wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer timau practisau cyffredinol, ond maent hefyd ar gael i arbenigwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1488  
Ein cyf/Our ref JMHSC/11064/24

Carolyn Thomas AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

[deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru)

17 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn

## Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Diolch ichi am eich llythyr, dyddiedig 5 Rhagfyr, ynghylch y ddeiseb uchod.

Yng Nghymru, mae'r angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau i helpu pobl sydd â COVID hir wedi cael ei gydnabod ers dechrau'r pandemig. Rydym yn glir bod parhau i helpu pobl sy'n dioddef effeithiau tymor hir COVID-19, a'r rheini sy'n gwella ohonynt, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru.

Fe wnaethom lansio rhaglen Adferiad ym mis Mehefin 2021, gan fuddsoddi £10m rhwng 2021 a 2023. Datblygodd y byrddau iechyd wasanaethau adsefydlu integredig amlbroffesiynol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac sy'n caniatáu atgyfeirio ar gyfer asesiad arbenigol pan fo angen. Gellir cael mynediad at wasanaethau a ariennir gan Adferiad drwy glinigwyr gofal sylfaenol neu glinigwyr eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd gynnydd yn y cyllid blyneddol ar gyfer gwasanaethau Adferiad, ac mae £8m yn cael ei ddyrannu bellach i'r byrddau iechyd ar sail reolaidd ([Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Raglen Adferiad \(14 Mawrth 2023\) | LLYW.CYMRU](#)). Mae'r cyllid uwch wedi galluogi'r byrddau iechyd i ehangu mynediad at wasanaethau a ariennir gan Adferiad i bobl â mathau eraill o salwch sy'n deillio o haint blaenorol ar sail anghenion/symptomau, gan gynnwys pobl â chyflyrau fel ME/syndrom blinder cronig a ffibromyalgia, yn ogystal â'r rheini sydd â symptomau corfforol parhaus, ond lle nad oes diagnosis wedi'i gadarnhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Penderfynwyd mai gwasanaethau lleol, wedi'u cefnogi gan fynediad at y gwasanaethau arbenigol angenrheidiol, oedd y model gorau posibl yng Nghymru i wella canlyniadau i bobl yr effeithiwyd arnynt gan COVID hir, ac i sicrhau model mynediad teg. Mae'r dull a fabwysiadwyd yng Nghymru yn gyson â [chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#), a gefnogir ac a arweinir gan glinigwyr yng Nghymru. Bydd ein cyfeiriad polisi a'n model gwasanaeth yn parhau i addasu wrth inni ddysgu mwy am effeithiau tymor hir COVID-19. Wrth i'r sylfaen dystiolaeth dyfu, ochr yn ochr â thystiolaeth am driniaethau a gwahanol fathau o COVID hir neu ffyrdd o ymglyfwyno â'r cyflwr, bydd hyn yn llywio'r model a'r llwybrau gorau posibl sydd eu hangen ymhellach, ac yn cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau a ariennir gan Adferiad ymhellach.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wrthi'n sganio am ymchwil a threialon i gynnig cyfleoedd i bobl sydd â COVID hir gael mynediad at driniaethau a therapïau posibl. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom fuddsoddi £6.93m dros bum mlynedd i greu Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynhyrchu tystiolaeth amserol ar gyfer y rheini sy'n gwneud penderfyniadau polisi ac ymarfer. Mae'r ganolfan hon yn croesawu cwestiynau gan ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â COVID hir. Mae hefyd yn ceisio mewnbwn gan y rheini sydd â phrofiad bywyd i fireinio ei gweithgareddau.

## Cyfranogiad Economaidd

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu gweithwyr yn cael eu helpu yn ystod cyfnodau o salwch ac i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl unrhyw gyfnod o salwch, gan gynnwys COVID hir. Lle bo angen, dylent wneud addasiadau rhesymol i hwyluso hyn. Rydym yn disgwyl i sefydliadau fod yn cyflawni eu gofynion fel cyflogwyr i ddarparu addasiadau rhesymol i staff anabl, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw rheoleiddio cyrff cyhoeddus. Gall y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cydraddoldeb ([equalityadvisoryservice.com](http://equalityadvisoryservice.com)) fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth.

Gan gydnabod y materion penodol a oedd yn effeithio ar staff y GIG, ym mis Gorffennaf 2023, datblygodd Cyflogwyr GIG Cymru ddogfen ganllaw i [helpu cydweithwyr sydd â COVID-19 hir i ddychwelyd i'r gwaith](#). Roedd y canllawiau hyn yn atgoffa cyflogwyr o'r angen i ystyried, fesul achos yn dilyn trafodaethau rhwng y rheolwr a'r aelod o staff, a yw'n briodol darparu cymorth cyflog salwch uwch parhaus dros hanner cyflog neu ddim cyflog. Roedd y canllawiau hefyd yn gofyn i reolwyr llinell ystyried pob opsiwn sy'n agored iddynt, gan edrych ar unrhyw bosibiliadau o ran hyblygrwydd a gwneud eu gorau glas i helpu unigolion sydd â COVID hir i ddychwelyd i'r gweithle pan fo'n bosibl.

O ran budd-daliadau, mae hwn yn fater a gedwir yn ôl ac, o'r herwydd, rwy'n cyfeirio'r deisebydd at y gwefannau canlynol am wybodaeth: [Budd-daliadau anabledd COVID hir | Elusen anabledd Scope UK](#).

## Seilwaith

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn parhau i gyflwyno mesurau i wella ansawdd aer ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae awyru a hidlo effeithiol yn allweddol i gyflawni hyn, ac felly i leihau'r risg o haint. Dyma rai camau gweithredu allweddol sydd wedi'u cynnal:

- Cyhoeddi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru newydd (WHTM) 03-01 – Awyru Arbenigol ar gyfer Safleoedd arian penryn 26

dilysu a pherfformiad gweithredol. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi argymhellion manwl o ran awyru ar gyfer pob safle gofal iechyd, gan gynnwys safleoedd gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.

- Mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru wedi penodi Personau Awdurdodedig ar gyfer awyru. Maent yn sicrhau bod y gwaith o osod, cynnal a chadw a monitro systemau yn cyrraedd y safon cydymffurfio.
- Mae Grwpiau Diogelwch Awyru ar waith ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru. Mae gan y grwpiau hyn gyfrifoldeb i sicrhau bod pob system awyru yn cael ei dylunio, ei gosod, ei phrofi a'i chynnal yn unol â'r canllawiau.
- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn darparu gwasanaeth Peiriannydd Awdurdodi-Awyru sy'n cael ei benodi fel cynghorydd annibynnol gan fyrdau ac ymddiriedolaethau iechyd i gynnal asesiadau o Bersonau Awdurdodedig, systemau archwilio a'u rheolaeth weithredol gysylltiedig. Mae'r Peiriannydd Awdurdodi hefyd yn aelod o'r Grŵp Diogelwch Awyru.
- Mae peirianwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn cynnal archwiliadau dilysu llawn o'r systemau awyru arbenigol pan gânt eu gosod yn y lle cyntaf. Yn ogystal, maent yn cynnal gwiriadau ar offer awyru critigol yn flynyddol a chaiff contractwyr allanol hefyd eu comisiynu i gyflawni'r gwaith hwn sy'n sicrhau bod yr holl systemau awyru arbenigol yn cael eu cynnwys.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi rhannu cyhoeddiadau cynghorol â'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar drosglwyddiadau heintiau a chyfeirio'n glir at bwysigrwydd systemau awyru effeithiol i leihau'r risgiau hyn a gwella ansawdd aer. Mae lleoliadau gofal cymdeithasol, megis cartrefi gofal, yn gartrefi i unigolion ac nid ydynt yn lleoliadau clinigol. Dim ond ar gyfer lleoliadau gofal iechyd yn unig y mae termau "hidlo aer" a "sterileiddio" mewn perthynas ag ansawdd aer yn berthnasol.

Yn unol ag adran 44(4)(a) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig sicrhau bod safleoedd yn hygyrch ac wedi eu goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n ddigonol. Mae'r corff rheoleiddio, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, yn arolygu'r gwasanaethau yn rheolaidd ac mae'r amgylchedd yn un o'r meysydd yr adroddir amdano.

O ran awyru mewn ysgolion, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol a/neu'r corff llywodraethu i wneud darpariaeth effeithiol ac addas i sicrhau bod pob gweithle caeedig yn cael ei awyru gan ddigon o aer ffres neu aer wedi'i buro yn unol â Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992.


Cafodd 32,000 o ddyfeisiau monitro carbon deuocsid eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru i helpu i fonitro a rheoli awyru ac ansawdd aer ar draws ysgolion yn ystod y pandemig. Mae'r canllawiau ar gyfer monitro lefelau carbon deuocsid a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn parhau'n ddilys ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer, gan dderbyn mai dim ond un elfen o fonitro ansawdd aer yw hyn.

Lle mae systemau trin aer wedi'u gosod mewn adeiladau ysgol newydd, mae hidlo yn un o ofynion hanfodol y systemau a rhoddir pwyslais uwch ar hynny oherwydd natur aerdyn yr adeiladau newydd.

Yn olaf, rydym wedi ymrwmo, ar y cyd â Llywodraeth y DU, i brosiectau seilwaith gwyrdd ar raddfa fawr fel Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol, Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi, ochr yn ochr â'n Rhaglen Ôl-osod (Tai) er mwyn Optimeiddio. Mae ystod o gymorth sgiliau ar gael, gan gynnwys hyfforddiant uwchsgilio ac ailsgilio wedi'i ariannu'n llawn o dan ein Cyfrifon Dysgu Porthladdoedd a Pharthau.

Mae ein rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cymorth cynghori cyflogaeth arbenigol a mentora dwys i'r rheini sy'n 20 oed neu'n hŷn ac mae Cymru'n Gweithio yn darparu ystod o gymorth sy'n gysylltiedig â gyrfaedd, gan gynnwys adolygiadau gyrfa i gefnogi'r rheini sy'n ystyried posibiliadau gyrfa newydd/newid gyrfa.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark on the left and a series of wavy lines extending to the right, ending in a short horizontal stroke.

**Jeremy Miles AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Care

## **P-06-1488 Establish a 'Care Society' to Tackle the Long COVID Crisis in Wales – Correspondence from the petitioners, 10 February 2025**

Dear Jeremy Miles AS/MS,  
Cabinet Secretary for Health and Social Care,

Thank you for your response to the petition calling for a 'Care Society' in Wales to address the Long COVID crisis. While I appreciate the Welsh Government's recognition of the issue and investment in rehabilitation services, this crisis is not just a medical issue—it is an economic and social one. The current approach does not address the structural changes needed to prevent mass social and economic exclusion as levels of chronic illness continue to rise.

### The Cost of Inaction

Without meaningful intervention, Wales faces:

- A long-term workforce crisis: ONS data already shows exponentially increasing rates of economic inactivity due to long-term illness. If Wales continues to rely on employer discretion and a work-first model, more people will be forced out of the workforce entirely, leading to reduced tax revenues, increased NHS costs, and a growing crisis in care sectors.
- A rise in poverty and destitution: The current disability benefit system (which remains under Westminster control) is failing thousands. The Welsh Government cannot change this, but it can mitigate the consequences by creating pathways for participation that do not rely on punitive assessments or means-testing.
- Further decline in local economies: A shrinking workforce means fewer people with disposable income to support local businesses, leading to more closures, particularly in rural areas. Without intervention, this will accelerate economic decline in already struggling Welsh communities.

### A Practical Welsh Response: Policies Within Devolved Powers

This may seem beyond Wales' capacity, but history shows otherwise. When Aneurin Bevan created the NHS, he did so in a time of economic hardship, and without full control over taxation or benefits. Today, Wales has more devolved powers than Bevan did—enough to lead the way again.

Here's what Wales can do within its existing powers:

#### 1. A Guaranteed Basic Income for People with Chronic Illness

The Welsh Government has already piloted a basic income scheme for care leavers. A similar model could be extended to those with Long COVID and other chronic illnesses through:

- A Basic Income for Health and Participation, providing financial security without the conditionality of Universal Credit or Personal Independence Payment (PIP).
- Initial pilot funding through the Welsh discretionary social care budget, in partnership with local authorities and health boards.

This would not only improve individual well-being but also increase participation in alternative economic models, such as cooperatives, local food production, and mutual aid networks—sectors that will be vital in a shifting economic landscape.

## 2. Expansion of Community-Based Work & Care Cooperatives

Many people with chronic illnesses can contribute to society outside of traditional employment, but the current system does not recognise this. Wales could:

- Fund worker-owned co-ops for people with Long COVID and other disabilities, focused on flexible work in areas like digital services, local food production, and peer support.
- Expand Social Prescribing Initiatives, linking those with chronic conditions to meaningful local engagement that does not require adherence to standard work schedules.
- Establish a national Care Economy Strategy, similar to the foundational economy work already being explored, but explicitly focused on supporting disabled and chronically ill people in participatory roles.

## 3. A Publicly-Owned Clean Air Strategy

While improvements to ventilation in healthcare and education are noted in your response, this needs to go further. The Welsh Government can:

- Establish a National Clean Air Fund to retrofit public buildings, libraries, and transport hubs with HEPA filtration.
- Use devolved planning powers to mandate HEPA filtration in new social housing and public infrastructure projects under the Optimised Retrofit Programme.
- Fund public awareness campaigns on airborne disease prevention as a collective responsibility, similar to past public health efforts on smoking and seatbelt use.

## The Opportunity Before Us

Wales cannot wait for Westminster to solve this crisis. The principles that built the NHS—collective responsibility, universal access, and the prioritisation of human well-being over profit—are within our grasp today. With bold leadership, we can prevent the worst-case scenario of economic collapse, rising poverty, and social isolation.

Bevan built the NHS under greater constraints than we face now. Wales has an opportunity to lead once again—not just in rehabilitation services but in redefining what a care-based society looks like in the 21st century.

We urge the Welsh Government to take this moment not just to treat, but to transform.

Yours sincerely,  
Charles A. Waltz  
Co-Founder, The Care Society Cymru

# Eitem 3.1

**P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mencap Cymru, ar ôl casglu 1,926 lofnodion ar-lein ac 578 o lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 2,504 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Mencap Cymru yn pryderu y gall y newid tuag at gymdeithas heb arian parod wneud cam â phobl anabl na allant gael mynediad at ddulliau electronig ar gyfer talu.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae pobl ag anableddau dysgu wedi methu talu am nwyddau a gwasanaethau ac wedi gorfod gadael busnesau'n waglaw. Ni chaniateir i weithwyr cymorth ddefnyddio'u cardiau eu hunain, ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny.

Mae'n mynd yn anoddach iddynt brynu nwyddau a gwasanaethau wrth i nifer o fusnesau a sefydliadau droi at systemau electronig o dalu.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

Jane Hutt AS/MS  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y  
Trefnydd a'r Prif Chwip  
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1335  
Ein cyf/Our ref JH-/10468/24

Carolyn Thomas AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

20 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 6 Rhagfyr, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am fy nghyfarfod gyda Mencap Cymru. Cefais gyfarfod cadarnhaol iawn gyda Mencap ar 27 Tachwedd, lle buom yn trafod materion a godwyd yn y drafodaeth ar 23 Hydref.

Mae llawer o'r bobl sy'n dibynnu ar arian parod hefyd yn rhai sydd angen cymorth wyneb yn wyneb ar gyfer eu hanghenion bancio. Yn aml, dyma'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl oedrannus ac anabl, a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Mae opsiynau talu digidol yn unig heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer arian parod hefyd yn codi cwestiynau posibl o ran cydraddoldeb. Mae yna risg y gallai peidio â derbyn arian parod wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sydd â rhai nodweddion gwarchoddedig. Trafodwyd hyn gan y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, ac mae'n bosibl y caiff ei nodi yn y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd ar y gweill.

Mae sefydlu'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a grewyd mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Drws Ar Glo, yn dangos y cynnydd pwysig rydym wedi'i wneud o ran gwrando ar bobl anabl a gweithio gyda nhw i gael gwared ar y rhwystrau y maent yn parhau i'w hwynebu bob dydd. Daeth deg gweithgor thematig y Tasglu â thros dri chant a hanner o randdeiliaid allanol ynghyd a thros ddau gant o arweinwyr polisi o bob rhan o'r Llywodraeth i greu argymhellion o ansawdd.

Mae'r argymhellion hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl, a fydd yn cynnwys y deilliannau sydd eu hangen i greu newid cadarnhaol hirdymor i bobl anabl, gan roi'r lle canolog i'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ein gweledigaeth ar gyfer Cymru.

Bydd holl dimau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth, drwy weithredu'r camau a'r newidiadau y mae angen inni eu gweld. Bydd y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl yn destun ymgynghori ddechrau gwanwyn 2025.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[@gov.wales](https://twitter.com/Correspondence.Jane.Hutt)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod cynhwysiant ariannol yn fater cyfiawnder cymdeithasol allweddol ac wedi'i ddatganoli, mae gwasanaethau ariannol yn fater a gadwyd yn ôl. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a sefydliadau a ariennir gan y sector, e.e. LINK, i sicrhau bod rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar fynediad at beiriannau arian parod am ddim a mynediad at wasanaethau arian parod am ddim yn cael eu cynnal ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno canolfannau bancio ar y cyd ac yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i undebau credyd i gynnig gwasanaethau benthyca a chredyd egwyddorol yng nghymunedau Cymru.

Yn ogystal â chynnig awgrymiadau i Mencap ar sefydliadau y byddant am gysylltu â nhw efallai, cytunais yn y cyfarfod i gwrdd â Mencap eto yn y Flwyddyn Newydd, pryd y gallwn symud ymlaen o ran y materion amrywiol dan sylw. Rhennais nodyn ag Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet hefyd o gynnwys y cyfarfod er mwyn iddynt weld y materion a godwyd sy'n berthnasol i'w portffolio.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first few letters.

**Jane Hutt AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip



Eich cyf P-06-1335  
Ein cyf KSNWT/10969/24

Carolyn Thomas AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

15 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch Deiseb Mencap Cymru P-06-1335 - dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod oedolion bregus heb gardiau banc yn gallu talu gydag arian parod.

Rydym am i bawb allu defnyddio dull trafnidiaeth diogel, hygyrch a dibynadwy o'u dewis. Mae fy swyddogion wedi codi'r mater hwn gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) fel rhan o'u gwaith parhaus i wella profiad teithwyr ar drenau a bysiau, ac i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ar hygyrchedd a diogelwch.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau mewn grym wrth brynu tocynnau gydag arian parod ar y mwyafrif helaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Gallaf gadarnhau, os oes angen i gwsmer brynu tocyn trên neu fws gydag arian parod, gallant ei brynu o'r swyddfa docynnau os oes un yn yr orsaf neu brynu tocyn ar y trên neu'r bws. Os yw cwsmer yn teithio o orsaf reilffordd sydd â pheiriant hunanwasanaeth yn unig, neu os yw'r swyddfa archebu ar gau, gallant ddefnyddio'r peiriant i gael taleb addewid i dalu y gellir ei gyfnewid am docyn arferol gan y casglwr tocynnau, neu yn ei gyrchfan. Fodd bynnag, rydym yn deall na all pawb ddefnyddio ein peiriannau hunanwasanaeth a bydd yr opsiwn i brynu tocyn ar y trên neu'r bws ar gael bob amser.

Rwy'n ymwybodol nad yw TrC yn derbyn arian parod ar gyfer trafodion arlwygo ar ei wasanaethau rheilffyrdd, fel llawer o Gwmnïau Trenau eraill. Gwnaed y penderfyniad hwn i ddechrau oherwydd pandemig Covid-19 a pharhaodd fel mesur diogelwch i staff arlwygo oedd yn cario arian parod, a'r gost sy'n gysylltiedig â thrin a bancio arian parod. Os bydd person ar daith hir ar y tren gyda TrC lle nad yw'r dull o dalu gyda cherdyn ar gael iddynt, bydd staff arlwygo TrC yn defnyddio eu disgresiwn i weini lluniaeth am ddim yn ôl yr angen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn gwella profiad teithwyr ar drenau a bysiau, mae TrC yn rhedeg Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys pobl anabl gydag ystod o amhariadau. Mae panel hygyrchedd Trafnidiaeth Cymru'n dylanwadu ar ei bolisiau hygyrchedd ac yn cynghori'r sefydliad ar sut i gefnogi cwsmeriaid anabl a hŷn i ddefnyddio ein gwasanaethau'n effeithiol. Mae'r panel yn cynghori Trafnidiaeth Cymru ar gynlluniau ar gyfer trenau a gorsafoedd newydd ac wedi'u hadnewyddu hefyd, yn ogystal â'i raglen hyfforddi staff. Mae TrC hefyd wedi gweithio i sicrhau bod eu dull gweithredu'n cyd-fynd â'u cynllun hyder i deithio, lle gall grwpiau lleol drefnu ymweliadau ymwybyddiaeth gan dîm Rheilffordd Gymunedol TrC i gael cymorth i brynu tocynnau. Mae rhagor o wybodaeth am fenter hyder i deithio TrC ar gael yma: [Hyder i deithio | TrC](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Tasglu Hawliau Anabledd hefyd i nodi'r problemau sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl yng Nghymru a datblygu atebion sy'n dysgu o'u profiad byw, gan gynnwys sut i ddarparu cludiant cynhwysol a hygyrch: [Tasglu Hawliau Pobl Anabl | LLYW.CYMRU](#).

Gobeithio fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru



## **P-06-1335 Welsh Government should take steps to ensure vulnerable adults without bank cards can pay with cash - Correspondence from the Petitioners, 10 February 2025**

Our Response:-

Mencap Cymru would like to thank the Senedd's Petitions Committee for its continued support for the issue which we raised in our petition:- **P-06-1335 Welsh Government should take steps to ensure vulnerable adults without bank cards can pay with cash**

We would also like to thank the Chair of the Committee for writing to the Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip, Jane Hutt MS, and the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, Ken Skates MS regarding the issue of cashless payments.

### **Response to letter from Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip to Chair**

We were pleased to meet with the Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip, Jane Hutt MS on the 27th November to discuss the issue of publicly funded venues further alongside Dot Gallagher, Chair of Mencap Môn, and her two sons who have a learning disability. We are grateful for the Cabinet Secretary's offer to meet with us again. During the meeting, we were pleased to hear that the Cabinet Secretary recognised this issue as one which requires a cross-Government approach. We are still hearing stories of venues in the Higher Education sector and the Culture and Arts Sector who are refusing to accept cash payment, which excludes people with a learning disability who might not have access to digital forms of payment. As we have said throughout this process, access to venues for people who do not have digital forms of payment can be as great a barrier as physical access for those with physical impairments; the social model of disability must be the basis of provision of such services by venues who are in receipt of public funds.

We are grateful to the Cabinet Secretary for updating the relevant Cabinet Secretaries following the meeting. We would, however, appreciate a written response from each Cabinet Secretary as a result of this. Although recognition of the scale of this issue is welcomed, people with a learning disability who have experienced this issue and those who have supported the petition should have the opportunity to hear from the relevant Cabinet Secretaries about their commitment to this issue.

### **Response to letter from Cabinet Secretary for Transport and North Wales to Chair**

We are grateful to the Cabinet Secretary for his response, which addresses our concerns. There remains a concern that people with a learning disability may get fined for boarding a train without a valid ticket, but we are pleased that he has made it very clear that this will not happen.

We will share this update with members of the Wales Learning Disability Consortium so that they can inform their membership. We will also share with the Cross Party Group on Learning Disability at the next meeting.



Whilst we believe that the response was positive, we are still concerned that there will be no clear commitment to ensuring that future onboard catering contracts will require successful bids to accept cash. We noted in the Cabinet Secretary's response to a reference that catering staff will use their discretion to serve complimentary refreshments as required; we would like more clarification

about this offer as many people are still reporting of long train journeys without the ability to purchase food and drink.

#### **Additional Comments**

We were pleased to see how reference was made to this work at the Treasury Select Committee as part of their inquiry into the acceptance of cash. This shows how the voices of the most excluded within our society can influence public policy. We are grateful to the Petitions Committee for their continued support, understanding, and for leading the way on this issue.

### **P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jane Eleanor Seddon Barraclough, ar ôl casglu 1,314 o lofnodion ar-lein, ac 4,214 lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 5,528 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym wedi ein llorio gan benderfyniad Betsi Cadwaladr i gau 'dros dro' ward cleifion mewnol Ysbyty Tywyn. Rydym am i'r ward gael ei hailagor ar unwaith.

Mae cau'r ward hon heb unrhyw ymgynghori na hysbysiad yn gam bwriadol ac anhryloyw; mae'n gamddefnydd o wasanaeth cyhoeddus ein cymuned. Gallwch ein cefnogi drwy lofnodi'r ddeiseb. Diolch am eich cefnogaeth.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Cafodd staff a chleifion wybod ar y dydd lau y bydden nhw'n cael eu symud i ysbyty Dolgellau erbyn y dydd Mawrth dilynol.

Dim rhybudd, dim ymgynghori, dim trafod, dim rhesymeg.

Pe na bai staff am symud i Ddolgellau bydden nhw heb swydd. Mae Tywyn yn ysbyty newydd sydd ag offer a chyfleusterau rhagorol. Mae gan ein hysbyty staff gwych yn gweithio ynddo. Mae ein perthnasau a'n ffrindiau wedi cael y gofal gorau posibl y gallai rhywun ddymuno ei gael.

Mae'r bwrdd iechyd wedi dweud nad yw'n gallu recriwtio digon o staff i lenwi swyddi. Rydym am weld y dystiolaeth sydd gan y bwrdd iechyd sy'n dangos eu bod mewn gwirionedd wedi mynd ati i recriwtio staff ar gyfer ein hysbyty. Mae'r ysbyty hwn yn adnodd hanfodol yn ein cymuned. Os gwelwch yn dda, cefnogwch ein hymgyrch.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanellwy,  
Llanellwy, LL17 0JG

Block 5, Carlton Court, St Asaph Business  
Park, St Asaph, LL17 0JG

Carolyn Thomas MS,  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Deisebau,  
Senedd Cymru,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd,  
CF99 1SN

**Ein cyf / Our ref:** CS/CT(CE24/1102)

**Ffôn:** 01745 448788 ext 6382

**Gofynnwch am / Ask for:** Emma Hughes

**E-bost / Email:** [emma.hughes19@wales.nhs.uk](mailto:emma.hughes19@wales.nhs.uk)

**Dyddiad / Date:** 23 Rhagfyr 2024

Trwy e-bost – [seneddCovid@Senedd.wales](mailto:seneddCovid@Senedd.wales)

Annwyl Cadeirydd,

### **Parthed: Deiseb P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn**

Diolch am eich llythyr diweddaraf ynglŷn â Ward Dyfi. Nodaf y pwynt fod y Pwyllgor Deisebau wedi trafod y ddeiseb hon am y pumed tro ar 30 Medi a bod hyn yn anarferol, ond rwy'n mawr obeithio y gallwch weld, o'n gohebiaeth gyson, fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth o fewn ei allu i recriwtio a chadw staff yn yr ardal wledig iawn hon, a'n bod yn rhannu rhwystredigaeth y Pwyllgor bod hi'n parhau i fod yn hynod o anodd er gwaethaf pob ymdrech.

### **Sut roedd y gwasanaeth yn arfer cael ei ddarparu**

Cyn cau ward Dyfi dros dro ym mis Ebrill 2023, roedd 10 gwely wedi'u staffio yn Ysbyty Tywyn. Roedd swyddi gwag hirdymor yn golygu bod staff yn gweithio oriau hir y tu hwnt i'w horiau contract fel goramser, ac yn aml yn methu â chymryd gwyliau blynyddol/yn canslo gwyliau blynyddol i sicrhau lefelau staffio diogel ar y ward. Roedd staff asiantaeth yn annibynadwy ac yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd a oedd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion.

Nid oedd unrhyw wasanaeth Tuag Adref, roedd y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gyd wedi'u lleoli ar y ward. Nid oedd Gwasanaeth Mân Anafiadau, gan fod gofyn cyson ar staff a gyflogwyd i weithio yn yr Uned Mân Anafiadau i ddarparu lefel staffio diogel i gleifion mewnol. Cafodd hyn effaith negyddol ar gadw staff gan nad oedd staff yn gweithio yn y meysydd yr oeddynt wedi eu cyflogi i weithio ynddynt yn wreiddiol, ac roedd hyn yn lleihau'r gweithlu ymhellach fyth.

Ar adeg y penderfyniad i gau ward Dyfi dros dro, roedd prinder o bedair nyrs gofrestredig Band 5, un swydd Dirprwy Reolwr Ward Band 6 ac un swydd Rheolwr Ward Band 7. Ddeunaw mis yn ddiweddarach mae un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 5 ac un swydd wag Band 6 Dirprwy Reolwr Ward ar y ward. Mae pedair nyrs a Hyfforddwyd yn Rhyngwladol wedi cael eu recriwtio i weithio yn Ysbyty Tywyn, ond mae cadw staff yn yr ardal wedi bod yn anodd gyda nifer o staff yn gadael i chwilio am waith y tu allan i'r ardal.

**Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:**  
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office  
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd  
Bangor, Gwynedd LL57 2PW

**Tudalen y pwyllgor 40** [www.pbc.cymru.nhs.uk](http://www.pbc.cymru.nhs.uk) / **Web:** [www.bcu.wales.nhs.uk](http://www.bcu.wales.nhs.uk)

Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn sicrhau y darperir ymateb yn Gymraeg heb oedi.  
The Chief Executive's Office welcomes correspondence through the medium of Welsh and will ensure that a response is provided in Welsh without incurring a delay

## **Ble mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, a beth yw nifer y cleifion mewnol sydd angen y gwasanaeth.**

Mewn ymateb i fethiant i agor ward Dyfi yn ddiogel oherwydd niferoedd staff annigonol, canolbwyntiodd y Bwrdd Iechyd ar gyflwyno modelau darparu amgen a ddefnyddir yn aml mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae recriwtio yn her. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn uniongyrchol yng nghartrefi cleifion, gweithio'n agosach gyda chartrefi gofal yn yr ardal i ddarparu gwasanaethau i'w preswylwyr er mwyn medru aros yn eu lleoliad am gyfnod hwy, a darparu cymorth i gleifion i'w galluogi i dreulio eu hwythnosau a'u dyddiau olaf yn eu cartref eu hunain, gydag urddas. Rydym wedi amlinellu'r rhain i'r Pwyllgor eisoes yn ein gohebiaeth. Mae'r darpariaethau yma wedi eu croesawu gan gleifion a'u teuluoedd, cartrefi gofal a'r awdurdod lleol.

Mae gwelyau cleifion mewnol ychwanegol wedi'u hagor yn Ysbyty Dolgellau, a cheir yno 18 gwely erbyn hyn, sef cynnydd cyffredinol o 4 gwely i fodloni'r galw yn Nhywyn. Mae rhai aelodau staff o ysbyty Tywyn wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwelyau ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 67 o gleifion mewnol o ardal Tywyn. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 3.5 claf y mis.

Mae agor y gwelyau ychwanegol yn Nolgellau ac adleoli staff dros dro o Dywyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyd arhosiad cleifion. Cyn cau ward Dyfi, roedd Ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio ar draws wardiau cleifion mewnol Tywyn a Dolgellau. Ers cau ward Dyfi dros dro, mae staff therapi wedi gallu darparu lefelau uwch o gymorth therapi i gleifion gan wella eu hadsefydliad a'u hadferiad, a lleihau'r amser sydd angen i gleifion aros yn yr ysbyty.

